Pennaeth Strategol
Mrs Sara Morris
✉SaraMorris@gwynedd..llyw.cymru
☎ **01678 520278**

Ysgol Bro Tegid
BALA
Gwynedd
LL23 7BN

Dydd Llun 5ed of Fawrth 2018

Annwyl Rieni,

Eisteddfod Ddawns, Rhanbarth Meirionnydd
Yn
Ysgol Uwchradd Bro Idris, Dolgellau, Dydd Mercher, Mawrth 7fed, 2018
Am 5.00y.h

Gan fod yr eira wedi amharu ar Eisteddfod Cylch Penllyn eleni y mae ychydig newidiadau i drefniadau i gystadleuthau y Dawnsio Gwerin.

Gan mai dim ond Ysgol Bro Tegid oedd yn cystadlu yn nalgylch Penllyn rydym wedi cael gwybod gan yr Urdd, am eleni, nid oes angen cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch ac felly rydym yn cystadlu'n syth yn yr Eisteddfod Ddawns Rhanbarth.

Cynhelir yr Eisteddfod Ddawns Rhanbarth nos Fercher yma yn Ysgol Bro Idris, Dolgellau. Bydd yr noson yn dechrau am 5.00y.h.

Nid ydym wedi derbyn amser penodol i gystadlu gan yr Urdd eto ond gofynnwn i bawb anelu i gyrraedd Ysgol Bro Idris erbyn 5.00y.h.

Bydd angen i bawb fod yng ngofal eu dillad dawnsio gwerin eu hunain a erbyn heddiw bydd pawb wedi derbyn eu dillad i ddod adref. Bydd angen i bawb fod mewn sanau gwyn penglin ac esgidiau du. Bydd yr offerynnwyr yn gwisgo gwisg ysgol os gwelwch yn dda.

Er mwyn gwneud yn siwr fod gan bawb gludiant i'r Eisteddfod hoffwn i chi lenwi'r bonyn isod a'i ddychwelyd i'r ysgol erbyn yfory os gwelwch yn dda. Hoffwn wybod os ydych yn cludo eich plentyn i'r Eisteddfod ac os oes ganddoch le i ddisgyblion eraill sydd heb gludiant.

Gyda diolch
Mrs Sara Morris

Eisteddfod Dawns, Rhanbarth Meirionnydd

Enw plentyn/plant _____
Byddaf yn cludo fy mhlentyn fy hun _____
Mae lle i _____ o ddisgyblion eraill gyda mi.
Ni allaf gynnig cludo neb arall _____